Wales Office | Swyddfa Cymru

Gwydyr House
Whitehall
London
SW1A 2NP

Tŷ Gwydyr
Whitehall
Llundain
SW1A 2NP

Tel/Ffôn: 020 7270 0534
Fax/Ffacs: 020 7270 6146
E-mail/E-bost: walesofficefoi@walesoffice.gsi.gov.uk

Ref: 09 FOI 280

20 November 2009

Mr Hedd Gwynfor
Via email at: request-18450-f25ceb67@whatdotheyknow.com

Dear Mr Gwynfor

FREEDOM OF INFORMATION ACT REQUEST

Thank you for your email of 23 September 2009 requesting information about the proposed Welsh Language LCO.

You requested:

"... details of all correspondence between the Wales Office (including relevant Ministers, junior Ministers and members of staff) and the Welsh Assembly Government (including relevant Ministers, junior Ministers and members of staff) relating to the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Welsh Language) Order 2009".

We wrote on 21 October and 4 November to inform you that the Wales Office required more than the usual 20 working days to consider the application of exemptions. We have now concluded that consideration, and this letter sets out our decision.

I confirm that the Wales Office holds information falling within the terms of your request. We are disclosing some of that information, but withholding other information which is exempt under the Freedom of Information Act.

Previous information released, which falls within the terms of your request, is available on the Wales Office website (www.walesoffice.gov.uk) on the FOI Disclosure Log.

A copy of the information which we are disclosing is enclosed. The information includes individual documents, redacted where appropriate, and an annex providing a narrative of the remaining information which can be disclosed.

The remainder of the information that you requested is exempt under sections 35(1)(a) (Formulation of Government policy) and 42 (Legal Professional Privilege) of the Freedom of Information Act. The information which is exempt under section 35(1)(a) consists of exchanges between the Wales Office and the Welsh Assembly Government which relate to the formulation and development of the policy of the United Kingdom and Welsh Assembly Governments on the proposed Legislative Competence Order. The information

which is exempt under section 42 consists of confidential communications with legal advisers relating to the proposed Order.

These exemptions are subject to a test of the balance of public interest. This means that, if information falls within the terms of the exemptions, it is necessary to consider whether the public interest in all the circumstances of the particular case requires the information to be released or withheld. The information may only be withheld if the public interest in withholding outweighs the public interest in disclosure.

In deciding whether to disclose the information which is exempt under section 35(1)(a), we have considered the following public interest reasons in favour of disclosing the information:

- There is a public interest in understanding the process by which the Welsh Assembly and UK Governments formulate policy on devolving legislative competence to the Assembly, given its constitutional significance. There is also interest in the progress and content of this proposed Order.
- Greater transparency and openness can improve accountability and public trust.
- A greater understanding of the basis for Government decision making enables the public to decide for itself whether appropriate factors and options have been considered during the formulation of policy.
- A better understanding of how the Governments have arrived at their proposals could encourage a more informed contribution to the policy making process.
- A more informed debate gives a wider number of people the opportunity to contribute to that debate and enhances trust in the quality of the decision making

We balanced these strong arguments in favour of disclosure against the need to ensure close and effective working relationships between the Welsh Assembly Government and UK Government in the development of policy on legislative competence issues. In developing policy, Ministers and officials need to be able to have candid discussions about the various options and their implications. We believe that providing details of the options which were considered and the arguments which were made would risk the ability of the UK Government to work with the Welsh Assembly Government in an open and collaborative way now and in the future in considering proposed Orders. Releasing this information now may result in relevant parties in the future being inhibited from asking the necessary questions to ensure legislative competence is devolved which is appropriate and fit for purpose. Alternatively, they might be inhibited from adequately recording the details of discussions.

These considerations are also relevant to the information which is exempt under section 42. However, it is also vital that Government decisions are taken in a fully informed legal context, with the benefit of the best possible legal advice during the policy making process. Advice must be based on full disclosure of the relevant background, and must present a full picture of the legal risks and of the arguments for and against a particular legal view. The prospect that legal advice would be disclosed could reduce the reliance which could be placed on the advice, or even discourage the seeking of advice in the first place.

For these reasons, we have concluded in this case that the harm that would result from disclosure of the exempt information outweighs the public interest arguments in favour of disclosure.

If you are unhappy with the decision made in relation to your request, you may ask for an internal review. If you wish to do this, please write to:

FOI Team
Wales Office
Gwydyr House
Whitehall
London SW1A 2NP

If you are not content with the outcome of any internal review, you have the right to apply directly to the Information Commissioner for a decision. The Information Commissioner can be contacted at:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

If you have any queries about this letter, please contact me at the above address. Please quote the reference number above in any future correspondence.

Yours sincerely



Stephen Knight
Freedom of Information Team

Wales Office | Swyddfa Cymru

Tŷ Gwydyr
Whitehall
Llundain
SW1A 2NP

Ffôn: 020 7270 0534
Ffacs: 020 7270 6146
E-bost: walesofficefoi@walesoffice.gsi.gov.uk

Cyfeirnod - 09 FOI 280

20 Tachwedd 2009

Mr Hedd Gwynfor
request-18450-f25ceb67@whatdotheyknow.com

Annwyl Mr Gwynfor

Diolch i chi am eich e-bost a dderbyniwyd ar 23 Medi 2009 yn gofyn am wybodaeth am Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (GCD) yr Iaith Gymraeg.

Yr oeddech wedi gofyn am:
"... fanylion am yr holl ohebiaeth rhwng Swyddfa Cymru (gan gynnwys Gweinidogion, Is-weinidogion ac aelodau perthnasol o staff) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (gan gynnwys Gweinidogion, Is-weinidogion ac aelodau perthnasol o staff) yn ymwneud â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009".

Yr oeddem wedi ysgrifennu atoch ar 21 Hydref a 4 Tachwedd i'ch hysbysu bod angen mwy na'r 20 diwrnod arferol ar Swyddfa Cymru i ystyried cymhwyso eithriadau. Yr ydym yn awr wedi cwblhau'r broses honno, ac mae'r llythyr hwn yn amlinellu'n penderfyniad.

Gallaf gadarnhau bod Swyddfa Cymru yn cadw gwybodaeth sy'n dod o fewn terfynau'ch cais. Yr ydym yn datgelu peth o'r wybodaeth honno, ond ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth arall sydd wedi'i heithrio o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae gwybodaeth flaenorol a ryddhawyd, ac sy'n dod o fewn terfynau'ch cais, ar gael ar wefan Swyddfa Cymru (www.walesoffice.gov.uk) ar y Log Datgelu Rhyddid Gwybodaeth.

Amgaeir copi o'r wybodaeth yr ydym yn ei datgelu. Mae'r wybodaeth yn cynnwys dogfennau unigol, wedi'u golygu pan mae hynny'n briodol, ac atodiad sy'n rhoi naratif ar weddill yr wybodaeth y gellir ei datgelu.

Mae gweddill yr wybodaeth yr ydych wedi gwneud cais i'w gweld wedi'i heithrio o dan adrannau 35(1)(a) (Llunio polisi'r Llywodraeth) a 42 (Braint Broffesiynol Gyfreithiol) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i heithrio o dan adran 35(1)(a) yn cynnwys cysylltiadau rhwng Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ymwneud â llunio a datblygu polisi Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chynulliad Cymru ar

y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i heithrio o dan adran 42 yn cynnwys gohebiaeth gyfrinachol â chynghorwyr cyfreithiol sy'n ymwneud â'r Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r eithriadau hyn yn amodol ar brawf cydbwysedd budd y cyhoedd. Mae hyn yn golygu, os yw'r wybodaeth yn dod o fewn terfynau'r eithriadau, bydd yn rhaid ystyried a yw budd y cyhoedd yn holl amgylchiadau'r achos dan sylw yn ei gwneud yn ofynnol i ryddhau neu beidio datgelu'r wybodaeth. Ni ellir peidio â datgelu'r wybodaeth oni bai bod y budd i'r cyhoedd drwy beidio â datgelu'r wybodaeth yn fwy na'r budd i'r cyhoedd drwy ei datgelu.

Wrth benderfynu a ddylid rhyddhau'r wybodaeth sydd wedi'i heithrio o dan adran 35(1)(a), yr ydym wedi ystyried y dadleuon budd i'r cyhoedd canlynol dros ddatgelu'r wybodaeth:

- Mae budd i'r cyhoedd yn deillio o ddeall y prosesau a ddilynir gan Lywodraethau Cynulliad Cymru a'r DU wrth lunio polisi ar ddatganoli cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad, o gofio'i arwyddocâd cyfansoddiadol. Mae budd hefyd yng nghynnydd a chynnwys y Gorchymyn arfaethedig hwn.
- Gall mwy o dryloywder a gonestrwydd wella atebolrwydd ac ymddiriedaeth ymhlith y cyhoedd.
- Mae gwell dealltwriaeth o resymau'r Llywodraeth dros wneud penderfyniadau'n galluogi'r cyhoedd i benderfynu drosto'i hun a yw ffactorau ac opsiynau priodol wedi cael eu hystyried wrth lunio polisi.
- Gallai gwell dealltwriaeth o sut y mae'r Llywodraethau wedi llunio'u cynigion annog cyfraniad mwy gwybodus tuag at y broses o lunio polisïau.
- Mae dadl fwy gwybodus yn rhoi cyfle i fwy o bobl i gyfrannu at y ddadl honno ac mae'n sicrhau mwy o ymddiriedaeth yn ansawdd y broses benderfynu.

Yr ydym wedi cydbwyso'r dadleuon cryf hyn dros ddatgelu'r wybodaeth yn erbyn yr angen i sicrhau perthynas waith agos ac effeithiol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU o ran datblygiad polisi ar faterion cymhwysedd deddfwriaethol. Wrth iddynt ddatblygu polisi, mae'n bwysig bod Gweinidogion a swyddogion yn cynnal trafodaethau gonest ar y gwahanol opsiynau a'u goblygiadau. Credwn y byddai datgelu manylion am yr opsiynau a ystyriwyd a'r dadleuon a roddwyd gerbron yn peryglu gallu Llywodraeth y DU i weithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn ffordd agored a chydweithredol yn awr ac yn y dyfodol pan fyddant yn ystyried Gorchmynion arfaethedig. Gallai rhyddhau'r wybodaeth hon yn awr atal y partïon perthnasol rhag gofyn y cwestiynau angenrheidiol yn y dyfodol i sicrhau bod y cymhwysedd deddfwriaethol sy'n cael ei ddatganoli'n briodol ac yn addas i'r diben. Neu, gallent ddewis peidio cadw cofnodion digonol o fanylion y trafodaethau.

Mae'r ystyriaethau hyn hefyd yn berthnasol i'r wybodaeth sydd wedi'i heithrio o dan adran 42. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod penderfyniadau'r Llywodraeth yn cael eu gwneud mewn cyd-destun cyfreithiol llawn ac ar sail gwybodaeth, gan fanteisio ar y cyngor cyfreithiol gorau posibl yn ystod y broses o lunio polisïau. Rhaid i gyngor fod yn seiliedig ar ddatgeliad llawn o'r cefndir perthnasol, a rhaid iddo roi darlun cyflawn o'r risgiau cyfreithiol ac o'r dadleuon dros ac yn erbyn safbwynt cyfreithiol penodol. Rhaid ystyried y posibilrwydd y gallai datgelu'r cyngor cyfreithiol hwnnw arwain at leihau'r ddibyniaeth ar y cyngor hwnnw, neu hyd yn oed annog pobl i beidio gofyn am gyngor yn y lle cyntaf.

Ar sail y rhesymau hyn, yr ydym wedi dod i'r casgliad y byddai'r drwg a fyddai'n deillio o ddatgelu'r wybodaeth eithriedig yn gwrthbwyso'r dadleuon budd i'r cyhoedd dros ei datgelu.

Os nad ydych yn hapus gyda'r penderfyniad a wnaethpwyd yn dilyn eich cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol. Os hoffech wneud hyn, ysgrifennwch at:

FOI Team
Wales Office
Gwydyr House
Whitehall
Llundain SW1A 2NP

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad unrhyw adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol am benderfyniad gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer SK9 5AF

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y llythyr hwn, gallwch gysylltu â mi yn y cyfeiriad uchod. Gofynnir i chi ddyfynnu'r cyfeirnod uchod mewn unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol.

Yn gywir



Stephen Knight